
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 568 (Cy. 156)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)
(Rhif 7) 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod sydd i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sy'n cynnwys y rhestr o wledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol. Mae personau nad ydynt yn esempt wedi eu gwahardd rhag dod i Gymru pan fônt wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A o fewn 10 niwrnod i gyrraedd, yn unol â rheoliad 12E o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae rheoliad 2 yn ychwanegu Maldives, Nepal a Thwrci at y rhestr yn Atodlen 3A.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 568 (Cy. 156)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)
(Rhif 7) 2021**

Gwnaed *am 2.26 p.m. ar 11 Mai 2021*

Gosodwyd *gerbron* *Senedd*
Cymru *am 5.45 p.m. ar 11 Mai 2021*

Yn dod i rym *am 4.00 a.m. ar 12 Mai 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 12 Mai 2021.

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws,
Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020**

2. Yn Atodlen 3A (gwledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol) i Reoliadau

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(1), yn y lle priodol mewnosoder—

“Maldives”

“Nepal”

“Twrci”.

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
Am 2.26 p.m. ar 11 Mai 2021

(1) O.S. 2020/574 (Cy. 132), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/24 (Cy. 8), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/48 (Cy. 11), O.S. 2021/50 (Cy. 12), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/154 (Cy. 38), O.S. 2021/305 (Cy. 78), O.S. 2021/361 (Cy. 110), O.S. 2021/454 (Cy. 144) ac O.S. 2021/500 (Cy. 149).